

Annwyl Paul ...



Hyd yma ni ddarganfuwyd unrhyw lythyr o gydnabyddiaeth - heb sôn am ddiolch - gan aelodau'r eglwysi am y llythyrau yr ysgrifennodd Paul atynt. Pam, tybed? Cododd Paul lawer o destunau trafod yn y llythyrau ond dim ymateb. Dim ond mudandod llwyr. Ym Mhennod 16 o'i Lythyr at y Rhufeiniaid ceir nifer o enwau diddorol ac un ohonynt hwy – Ruffus – sy'n mentro ysgrifennu at yr Apostol.

“Diolch o galon am eich llythyr atom ni yn Rhufain a phwysodd y rhai a enwyd gennych arnaf i ysgrifennu atoch. Buoch yn garedig o hael eich cyfarchion meddent - Phoebe am ddiolch am iddi fod yn 'gefn i lawer' ac i chi'n bersonol; Prisca ac Acwila yn methu â chofio

pryd y mentrodd y ddau eu heinioes ' i arbed (eich) bywyd'; Epainetus yn diolch i chi am ei alw yn 'gyfaill annwyl'; Mair am i chi ddweud iddi fod 'yn ddiflin ei llafur'; Apeles am i chi ei alw yn 'Gristion profedig' ac yn y blaen ac yn y blaen. Mae'r gweddill yn diolch am gael eu henwi'n unig heb unrhyw air o ganmoliaeth - yn fwy diolchgar am i chi gofio eu henwau, rhai ohonynt yn gaethion.

Mae'n werth perthyn i eglwys pe bai ond i gael ein galw wrth ein henw priod. Nid felly y mae'r byd yn ein hadnabod. Ac ar ddechrau eich llythyr, rydych yn ein galw yn 'saint'. Dyna anrhydedd fawr arall! - '...a thrwy ei alwad ef yn saint,' meddech. Teimlwn nad ydym yn haeddu'r enw. Ac ohonom i gyd, y chwiorydd sydd uchaf eu diolch am resymau amlwg mewn byd lle na chânt eu haeddiant. Felly diolch arbennig oddi wrth Phoebe, Prisca, Mair, Persis, Tryffena a Tryffosa. Gynt, daeth si atom fod gennych ragfarn yn erbyn chwiorydd ond dyma daflu hynny i'r gwynt! Buom yn darllen eich llythyr dro ar ôl tro yn ein plith ac yn rhyfeddu at gryfder eich ffydd a sicrwydd eich gweledigaeth ond yn bennaf oll at eich gostyngeiddrwydd mawr - 'gwas Crist Iesu' meddech. Mae'r holl ddoniau gennych i fod yn feistr ar lawer ond bodlonwch ar fod yn was. Crist yw'r Meistr yn eich golwg.

Diolchwn am ein haddysgu yn y Ffydd trwy lythyr mor unigryw â hwn – am ddarlunio'r Efengyl fel 'gallu Duw', am gyfiawnder trwy ffydd, am fywyd yn yr Ysbryd, ac am y gogoniant sydd i ddod. A phwy ond un fel chi a allasai ddychmygu cariad Duw mor fawr fel na all dim – ie, dim – ein gwahanu oddi wrtho? Ac nid un i ddiwinydda'r Ffydd yn unig ydych ond ei gwneud yn ymarferol a'n cymell i fwydo gelyn a threchu drygioni â daioni. Y caethion yn ein plith sydd barotaf i drafod â chi y gorchymyn i bawb ' ymostwng i'r awdurdodau sy'n ben'!

Fy nhad, Simon o Cyrene, wrth gwrs sy'n gyfrifol mai Cristion wyf i. Ni fyddai'n blino dweud yr hanes am ei dröedigaeth annisgwyl, ac yntau'n Iddew cydwybodol a aeth i ddathlu'r Pasg yn Jerwsalem a chael ei orfodi'n haerllug gan filwyr Rhufeinig i gario croes ein Gwardedr. Ni

freuddwydiodd wrth ffarwelio â mam y bore hwnnw y buasai'r ymweliad â Jerwsalem yn trawsnewid ei fywyd. 'Ond gwelais ef yn cael ei groeshoelio' meddai 'ac yn maddau i'w elynion. Troseddwr gwahanol oedd Hwn. Euthum i Jerwsalem yn Iddew ond dychwelais adre yn un a welodd y Meseia'. Yr un geiriau fyddai gan fy nhad bob amser wrth ddweud y stori.

Dywedwch yn eich llythyr eich bod â 'hiraeth am ein gweld'. Nid yw'r hiraeth hwnnw'n fwy na'n hiraeth ni am eich gweld chi. Prysured y dydd pan gawn, yn llythrennol, eich cofleidio yn Rhufain.

Ar ran holl aelodau'r eglwys, terfynaf fel y terfynwch chi eich llythyr atom ni - ' i Dduw, yr unig un doeth, y bo'r gogoniant, trwy Iesu Grist – iddo ef y bo'r gogoniant am byth! Amen'.

Ruffus”

Huw Ethall